# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 8 Medi 2022**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar **6 Medi 2022**, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Alex Pimm and Janet Cleverly

### Rhan 2

**Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol**

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 09/22**

**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

### Penderfyniad

Gyrrwr DKM

Bu'r panel trwyddedu yn ystyried adroddiad y Swyddog a chyflwyniad lliniaru'r gyrrwr yn ofalus a chredai'r Panel Trwyddedu fod yr achos hwn wedi bod yn achos diofalwch ar ran y gyrrwr oherwydd amgylchiadau lliniarol. Daeth y Panel i'r casgliad y dylai'r gyrrwr dderbyn rhybudd swyddogol a bod rhaid iddo ailsefyll y Prawf Gwybodaeth ond roeddent yn fodlon bod y gyrrwr yn berson addas a phriodol i gadw'r Drwydded Hurio Preifat gyda Chyngor Dinas Casnewydd.

Gyrrwr FM

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog a chyflwyniad lliniaru'r gyrrwr i'r Panel Trwyddedu yn ofalus. Cytunodd y Panel Trwyddedu fod y gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat gyda Chyngor Dinas Casnewydd ond y dylai dderbyn rhybudd ffurfiol. Yn ogystal, rhaid i'r gyrrwr ddarparu tystiolaeth o yswiriant cerbyd cywir a phriodol bob mis am y chwe mis cyntaf.

Gyrrwr GS

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog a chyflwyniad lliniaru'r gyrrwr i'r Panel Trwyddedu yn ofalus. Cytunodd y Panel Trwyddedu fod y gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal

Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat gyda Chyngor Dinas Casnewydd ond y dylai dderbyn rhybudd ffurfiol. Yn ogystal, rhaid i'r gyrrwr ddarparu tystiolaeth o yswiriant cerbyd cywir a phriodol bob mis am y chwe mis cyntaf.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.
**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

---